

# Ysgolion Rhagbrofi: Casgliad o Adroddiadau Diwedd Cyfnod

Tachwedd 2019

## Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 12 Orchard Street, Bryste, BS1 5EH
- Swyddfa Gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LE
- Swyddfa Llundain: 52 Cecile Park, Crouch End, Llundain, N8 9AS

Manylion cyswllt:

Ffôn: 01545 571711

E-bost: [wavehill@wavehill.com](mailto:wavehill@wavehill.com)

Twitter: @wavehilltweets

Rhagor o wybodaeth:

[www.wavehill.com](http://www.wavehill.com)

<https://twitter.com/wavehilltweets>

Awduron yr adroddiad:

Anna Burgess

Llorenç O'Prey

Endaf Griffiths

Dyddiad y ddogfen: Tachwedd 2019

## Rhestr Byrfoddau

CfW	Cwricwlwm i Gymru
MDPh	Maes Dysgu a Phrofiad
LNF	Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd
DCF	Fframwaith Cymhwysedd Digidol
Datganiad BB	Datganiad Beth sy'n Bwysig

# Cynnwys

Crynodeb gweithredol.....	i
Cynllunio a Gweithgareddau .....	i
Cwestiynau Lefel Uchel .....	i
Effaith ar draws yr ysgol .....	ii
1    Cyflwyniad.....	1
1.1    Cefndir .....	1
1.2    Rôl Ysgolion Rhagbrofi .....	2
1.3    Dadansoddi Adroddiadau.....	2
1.4    Methodoleg .....	3
2    Cyd-destun yr Ysgol ac Ymgysylltiad .....	4
2.1    Profiad Blaenorol .....	5
2.2    Ymgysylltiad gyda'r Gymuned a Rhwydweithiau .....	5
3    Cynllunio a Gweithgareddau.....	7
3.1    Cynllunio ar gyfer Cwricwlwm i Gymru.....	7
3.2    Gweithgareddau .....	8
4    Cwestiynau Lefel Uchel.....	9
4.1    A yw Deilliannau cyflawniad yn adlewyrchu'r egwyddorion cynnydd?.....	9
4.2    Yn gyffredinol, pa mor ddefnyddiol yw'r adrannau Cynllunio ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Maes Dysgu a Phrofiad er mwyn cynorthwyo ymarferwyr i gynllunio cwricwlwm ar gyfer yr holl ddysgwyr? .....	13
4.3    Pa mor ddefnyddiol yw pob un o'r egwyddorion a'r adrannau yn y cynigion asesu cenedlaethol er mwyn datblygu trefniadau asesu lleol? .....	18
5    Effaith ar yr ysgol gyfan .....	20
5.1    Dysgwyr .....	20
5.2    Athrawon .....	21
5.3    Staff Cefnogi .....	23
5.4    Tîm Arweinyddiaeth.....	23
5.5    Llywodraethwyr .....	24
5.6    Rhieni.....	24
5.7    Cyfleoedd.....	25
5.8    Heriau .....	26
6    Ystyriaethau ar gyfer y Dyfodol.....	27

## Crynodeb gweithredol

Er mwyn cefnogi datblygiad parhaus Cwricwlwm i Gymru 2022, gofynnwyd i 16 o Ysgolion Rhagbrofi sydd eisoes wedi mewnosod agweddau o'r cwricwlwm newydd fyfyrion ar eu profiadau. Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2018/19, gofynnwyd i'r ysgolion a oedd yn cymryd rhan gwblhau adroddiad diwedd cyfnod. Gan ddefnyddio'r adroddiadau hyn, cwblhawyd dadansoddiad gyda'r bwriad o archwilio'r materion a godwyd. Nod y dadansoddiad yw bwydo'r gwersi a ddysgwyd gan Ysgolion Rhagbrofi i'r ymdrechion i fireinio a gwella canllawiau'r cwricwlwm.

## Cynllunio a Gweithgareddau

Wrth baratoi i gyflwyno'r cwricwlwm newydd, ffurfiodd y mwyafrif o Ysgolion Rhagbrofi weithgorau a/neu nodi arweinwyr cwricwlwm o blith eu staff er mwyn arwain y cwricwlwm newydd yn ei flaen (10/16). Mae gan bob un o'r ysgolion broses ffurfiol neu anffurfiol yn ei lle i'w galluogi i sefydlu cysylltiadau rhwng y datganiadau Beth sy'n Bwysig, camau cynnydd a MDPH ochr yn ochr â'r hyn sy'n angenrheidiol yng nghyd-destun eu hysgolion penodol. Yn fwyaf cyffredin, nododd ysgolion (9/16) eu bod yn darparu hyfforddiant yn ymwneud â'r cwricwlwm newydd i'w staff. Er ei fod yn amrywio o ysgol i ysgol, roedd y math o hyfforddiant yn nodweddiadol yn canolbwyntio ar y theori a'r addysgeg sy'n cael eu pwysleisio o fewn y cwricwlwm newydd fel y'i bwriedir. Roedd pob ysgol yn pwysleisio pwysigrwydd cymryd amser i wella eu dealltwriaeth o'r cwricwlwm newydd, ei wersi damcaniaethol a'r hyn y byddai'n ei olygu ar gyfer eu hysgolion.

## Cwestiynau Lefel Uchel

Holwyd nifer o gwestiynau lefel uchel i bob Ysgol Ragbrofi gyda'r bwriad o arwain archwiliad a chanfod y prif wersi, gan gynnwys:

- A yw Deilliannau cyflawniad yn adlewyrchu egwyddorion cynnydd?
- Yn fras, pa mor ddefnyddiol yw'r adrannau Cynllunio ar gyfer Dysgu yn y canllawiau Maes Dysgu a Phrofiad er mwyn cynorthwyo ymarferwyr i gynllunio cwricwlwm ar gyfer yr holl ddysgwyr?
- Pa mor ddefnyddiol yw pob un o'r egwyddorion a'r adrannau o fewn cynigion asesu cenedlaethol ar gyfer datblygu trefniadau asesu lleol?

Roedd pob ysgol yn cytuno i raddau bod deilliannau cyflawniad y Cwricwlwm i Gymru yn adlewyrchu egwyddorion cynnydd (9/10), gan amlygu'n benodol bod camau cynnydd yn addas ac yn briodol ar gyfer dysgwyr a bod y canllawiau o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad yn glir ac yn ddealladwy (5/9). Rhybuddiwyd y byddai angen manylion cynllunio pellach ar gyfer gwersi (7/10) er mwyn sicrhau'r llwybrau cynnydd clir a phriodol, ac nad oedd y deilliannau cyflawniad a chynnydd a'r iaith o fewn y datganiadau Beth sy'n Bwysig yn gyson ar draws pob MDPH (6/10).

Roedd mwyafrif yr ysgolion yn bositif ynghylch yr adrannau Cynllunio ar gyfer Dysgu o fewn y canllawiau a dderbyniwyd ganddynt (6/11), gan awgrymu eu bod yn glir ac yn ddealladwy ar y cyfan (4/6) sy'n galluogi ysgolion i gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd gyda syniad clir o'r egwyddorion a'r nodau addysgeg a'r cysylltiadau rhwng y Meysydd Arbenigedd a Phrofiad (3/6). Er bod y canllawiau'n cael eu hystyried yn bositif, roedd ysgolion yn awgrymu y dylid ystyried y canllawiau fel ag y maent fel man cychwyn, a'u defnyddio fel dull i annog ysgolion i ymgysylltu gyda'r broses, ond byddai angen rhagor o fanylder wrth i'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm barhau.

Roedd ysgolion yn cytuno ar y cyfan bod yr egwyddorion a'r adrannau o gynigion asesu cenedlaethol yn ddefnyddiol er mwyn datblygu trefniadau asesu lleol (6/9) ond y dylai hyn unwaith eto gael ei ystyried fel man cychwyn i annog ysgolion. Un o'r pryderon cyffredin i ysgolion oedd bod yr asesiadau a'r deilliannau cyflawniad a amlinellir yn y cynigion cenedlaethol yn gyfyngedig yn eu ffurf bresennol, o ganlyniad i'r tebygrwydd i'r meini prawf asesu blaenorol a/neu mewn rhai achosion, eu diffyg eglurdeb, ac roedd rhai ysgolion yn pryderu y byddai hynny'n arwain at asesiadau amrywiol iawn yn seiliedig ar gyd-destun ysgolion.

## Effaith ar draws yr ysgol

Gofynnwyd i ysgolion hefyd ystyried effaith y cwricwlwm newydd ar ddysgwyr, staff, rhieni a llywodraethwyr. Roedd bron i ddwy ran o dair o'r ysgolion yn amlygu effaith bositif y cwricwlwm newydd ar ddysgwyr o ganlyniad i gynnwys dysgwyr ac ymgynghori â nhw ynghylch y cynnwys newydd a'r dull dysgu (8/13). Roedd mwyafrif yr ysgolion yn nodi bod eu hathrawon yn bositif ac yn gefnogol o'r cwricwlwm newydd ar hyn o bryd (8/13). Er bod mwyafrif yr ysgolion yn bositif ynghylch effaith y cwricwlwm newydd ar athrawon, awgrymwyd hefyd bod angen i'r canllawiau, yn enwedig yr adrannau Cynllunio ar gyfer Dysgu, ddarparu mwy o eglurdeb na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd. Cafodd yr hyfforddiant a gwblhawyd gan staff ei amlygu'n aml o fewn adroddiadau Ysgolion Rhagbrofi fel gweithgaredd allweddol a wnaed fel rhan o gyflwyniadau'r ysgolion i'r cwricwlwm newydd. Nododd ysgolion yn gyffredinol bod gallu eu harweinwyr i gydweithio (8/12) a'r cyfle iddynt baratoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru wedi cael effaith gadarnhaol. Roedd mwyafrif yr Ysgolion Rhagbrofi (10/14) yn nodi bod eglurdeb mewn asesiadau ar gyfer Cwricwlwm i Gymru yn her.

# 1 Cyflwyniad

Er mwyn cefnogi datblygiad parhaus Cwricwlwm i Gymru 2022, gofynnwyd i 16 o Ysgolion Rhagbrofi sydd eisoes wedi mewnosod agweddau o'r cwricwlwm newydd fyfyrion ar eu profiadau. Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2018/19, gofynnwyd i'r ysgolion a oedd yn cymryd rhan gwblhau adroddiad yn crynhoi eu profiadau. Roedd hyn yn cynnwys rhoi manylion gweithgareddau sy'n cefnogi'r broses o ymwreiddio'r cwricwlwm newydd i'r addysgu a'r dysgu, ac i fyfyrion ar y gwersi a ddysgwyd ac ar y cwricwlwm ei hun.

Ym mis Gorffennaf 2019, comisiynwyd Wavehill gan Lywodraeth Cymru i gynnal dadansoddiad annibynnol o'r adroddiadau a grëwyd gan yr 16 Ysgol Ragbrofi. Mae canfyddiadau'r dadansoddiad hwn yn cael eu cyflwyno yn yr adroddiad hwn. Nod y dadansoddiad yw cefnogi'r gwaith o fireinio'r canllawiau sy'n fframio'r cwricwlwm newydd cyn iddo gael ei gyflwyno i ysgolion ledled Cymru.

## 1.1 Cefndir

Cyhoeddwyd Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl gan Lywodraeth Cymru yn 2017. Roedd y ddogfen yn amlinellu cenhadaeth genedlaethol i godi safonau, cau'r bwlch cyflawniad a darparu system addysg sy'n destun balchder a hyder cenedlaethol. Mae'r cwricwlwm newydd, a ddatblygwyd yng Nghymru ond gan ddefnyddio gwybodaeth gan arbenigwyr ac ymarferwyr ledled y byd, yn rhan hanfodol o hynny. Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddwyd y canllawiau drafft i gefnogi'r cwricwlwm newydd er mwyn derbyn adborth. Ei fwriad yw darparu fframwaith cenedlaethol y gall ysgolion adeiladu arno er mwyn datblygu eu cwricwlwm eu hunain. Nid yw'n fwriad iddynt weithredu fel meysydd llafur holl gynhwysfawr na chanllaw er mwyn trefnu amserlenni. Mae canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 yn amlinellu'r canlynol:

- Yr hyn y dylai lleoliadau ac ysgolion ei ystyried wrth ddylunio eu cwricwlwm
- Disgwyliadau eang ar gyfer dysgwyr ym mhob maes dysgu a phrofiad ar bob pwynt cynnydd.

### **Cwmpas Cwricwlwm i Gymru 2022**

Mae drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 wedi cael ei lunio ar gyfer pob dysgwr rhwng 3 a 16 mlwydd oed. Y cynigion presennol o ran deddfwriaeth yw y bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei ddarparu ar gyfer y canlynol:

- plant 3-5 mlwydd oed sy'n mynychu dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion a gynhelir a'r rhai sy'n mynychu lleoliadau nas cynhelir a ariannir.

Mae'r dull ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022 hefyd yn ceisio caniatáu ar gyfer ehangu'r dysgu, cefnogi lleoliadau ac ysgolion i fod yn fwy hyblyg yn eu dulliau, ac mae'n darparu rhyddid pellach i arweinyddion addysg ac ymarferwyr, gan eu galluogi i fod yn fwy arloesol a chreadigol.

## 1.2 Rôl Ysgolion Rhagbrofi

Mae Ysgolion Rhagbrofi wedi cael eu tynnu o'r Rhwydwaith Ysgolion Arloesi presennol a sefydlwyd yn ystod hydref 2015. Cafodd yr ysgolion sy'n cymryd rhan wahoddiad i weithio gydag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Llywodraeth Cymru, Estyn ac ystod o arbenigwyr eraill ar ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm newydd. Ar draws sawl maes, mae'r Ysgolion Arloesi wedi cefnogi datblygiad agweddau o'r cwricwlwm, gan gynnwys Meysydd Dysgu a Phrofiad, fframweithiau trawsbynciol, hyd at ddysgu a datblygu proffesiynol sy'n cefnogi'r cwricwlwm newydd. Mae'r Ysgolion Arloesi sydd wedi bod yn gweithio ar ddatblygiad proffesiynol, er enghraifft, yn gyfrifol am ddatblygu fframwaith newydd o safonau proffesiynol ar gyfer athrawon ac arweinwyr ffurfiol, sef y *Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth*. Gyda'i gilydd, mae'r Rhwydwaith Ysgolion Rhagbrofi wedi bod yn ganolog i ddatblygiad y cwricwlwm newydd.

Er mwyn mireinio'r cwricwlwm ymhellach, ac i ystyried materion yn ymwneud â sut mae'r cwricwlwm yn gweithio'n ymarferol, estynnwyd gwahoddiad i sampl gynrychiadol o Ysgolion Arloesi i ddod yn Ysgolion Rhagbrofi. Er mwyn sicrhau bod ehangder y ddarpariaeth addysg ledled Cymru'n cael ei adlewyrchu yn y broses, cafodd pedwar ysgol o bob consortiwm ac ystod o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbenigol ar gyfer y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol eu dewis fel Ysgolion Rhagbrofi. Yna, estynnwyd gwahoddiad i'r 16 ysgol beilota agweddau o'r cwricwlwm newydd, gan ymwreiddio'r cwricwlwm i'r addysgu a'r dysgu. Nod y broses hon oedd annog dysgu o amgylch sut mae'r cwricwlwm yn gweithio'n ymarferol, a'r gweithgareddau a'r mentrau angenrheidiol er mwyn ymwreiddio'r cwricwlwm newydd yn effeithiol

Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2018/19, gofynnwyd i'r ysgolion a fu'n cymryd rhan gwblhau adroddiad yn crynhoi eu profiadau. Roedd hyn yn cynnwys rhoi manylion gweithgareddau gyda'r nod o gefnogi athrawon i ymwreiddio'r cwricwlwm newydd i addysgu a dysgu, ac i fyfyrion ar y gwersi a ddysgwyd, gan gynnwys y llwyddiannau a'r heriau a wynebwyd ganddynt. Gofynnwyd i'r Ysgolion Rhagbrofi hefyd fyfyrion ar y cwricwlwm ei hun, ac i gynnig argymhellion ynglŷn â sut y gellid gwella'r canllawiau.

## 1.3 Dadansoddi Adroddiadau

Gan ddefnyddio'r adroddiadau hyn fel sylfaen, cynhaliwyd dadansoddiad ym mis Awst 2019 i geisio archwilio'r themâu a'r materion a godwyd. Nod y dadansoddiad yw bwydo'r gwersi a ddysgwyd gan Ysgolion Rhagbrofi i'r ymdrechion i fireinio a gwella canllawiau'r cwricwlwm. Yn seiliedig ar gasgliad o adroddiadau diwedd cyfnod y 16 Ysgol Ragbrofi, nod y dadansoddiad oedd:

- Ystyried y berthynas rhwng gweithgareddau a phrofiadau ysgolion, a'r argymhellion neu syniadau a gynigiwyd ganddynt
- Amlinellu ymatebion a safbwyntiau pob ysgol yn erbyn pob un o'r cwestiynau lefel uchel
- Archwilio tueddiadau o fewn ymatebion ar draws gwahanol fathau o ysgolion
- Dechrau ystyried materion yn ymwneud â dilysrwydd a natur drosglwyddadwy profiadau neu argymhellion unigol, at ddibenion mireinio'r cwricwlwm, yn ogystal ag ar gyfer y gymuned addysg yn ei chyfarwydd.



## 1.4 Methodoleg

Wrth gynnal y dadansoddiad hwn, rydym ni wedi echdynnu, arfarnu a chasglu data ynghyd o adroddiadau diwedd cyfnod pob un o'r 16 Ysgol Ragbrofi mewn modd systematig. Gan ddefnyddio technegau a dulliau o'r adolygiad systematig hwn, cwblhawyd y dadansoddiad mewn dau gam:

- Echdynnu Data: Crëwyd ffurflen echdynnu data a oedd yn arwain ein gwaith darllen adroddiadau ac yn ein galluogi i echdynnu unrhyw wybodaeth berthnasol. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth gyd-destunol, gweithgareddau a dulliau o weithredu, profiadau ac argymhellion.
- Casglu Data Ynghyd: Gan ddefnyddio'r wybodaeth a echdynnwyd, bûm yn archwilio tueddiadau unigol a chyfansymiol ar draws y set data.

Mae'r dadansoddiad yn gyfyngedig mewn sawl ffordd sy'n bwysig nodi. Roedd amrywiaeth sylweddol yn ehangder a dyfnder y wybodaeth a gafwyd gan yr ysgolion ar draws y 16 adroddiad. Mewn rhai achosion, er enghraifft, roedd adroddiadau'n cynnwys amlinelliad yn unig o'r gweithgareddau a wnaed gan yr ysgolion i ymwreiddio agweddau o'r cwricwlwm newydd. Roedd hynny'n codi rhai heriau dadansoddol gan gynnwys pennu'r cyswllt rhwng gweithgareddau a'r myfyrio a'r dysgu a gynigir gan ysgolion. Roedd hefyd yn gwneud y broses o archwilio tueddiadau ar draws ysgolion yn fwy heriol, ac roedd hynny eisoes wedi'i gyfyngu gan samplau bychain wrth ystyried dadansoddiadau is-grwpiau.

## 2 Cyd-destun yr Ysgol ac Ymgysylltiad

### Crynodeb o'r adran

- Roedd mwyafrif yr Ysgolion Rhagbrofi yn awgrymu bod eu profiad fel Ysgol Arloesi wedi darparu sylfaen effeithiol o arbenigedd a gwybodaeth er mwyn gallu datblygu a gweithredu'r cwricwlwm newydd (10/16).
- Ers dod yn ymwybodol o'r cwricwlwm newydd, roedd mwyafrif yr ysgolion yn awgrymu eu bod wedi cynnal hyfforddiant a thrafodaethau mewnol gydag athrawon gan ganolbwyntio ar addysgeg yn eu hysgolion (9/16).
- Mae'n ymddangos bod ysgolion (10/16) eisoes wedi sefydlu cysylltiadau da o fewn eu cymunedau a'u rhwydweithiau lleol, yn enwedig ysgolion eraill o fewn eu clwstwr y maen nhw'n rhannu gwybodaeth ac arferion da â nhw ynghylch y cwricwlwm newydd.

Fel y gwelir yn Nhabl 2.1, er mwyn sicrhau bod ystod y ddarpariaeth addysg ledled Cymru wedi cael ei adlewyrchu yn yr ymgynghoriad, cafodd pedwar ysgol o bob consortiwm ac ystod o ysgolion cynradd ac uwchradd ac ysgolion arbenigol ar gyfer y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol eu dewis fel Ysgolion Rhagbrofi.

Tabl 2.1: Crynodeb o Broffil yr Ysgol

Crynodeb o'r Proffil	N
<b>Math o ysgol</b>	
Uwchradd	6
Cynradd	6
Cynradd ac Uwchradd	1
Arbenigol	3
<b>Iaith</b>	
Cyfrwng Cymraeg	6
Cyfrwng Saesneg	10
<b>Consortia</b>	
CSC	4
EAS	4
ERW	4
GWE	4

Yn yr un modd, roedd yr Ysgolion Rhagbrofi a ddewiswyd yn cynrychioli ystod o ddemograffeg, fel y gwelir yn Nhabl 2.2. isod.

Tabl 2.2: Demograffeg yr Ysgol

	Isafswm	Uchafswm	Cyfartaledd
Nifer y disgyblion	89	1782	685
Cyfran yn derbyn Cinio Ysgol Am Ddim	6%	42%	22%
Cyfran o ddisgyblion BAME	0%	85%	16%
Cyfran y disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol	8%	100%	36%

## 2.1 Profiad Blaenorol

O fewn y broses adrodd, gofynnwyd i ysgolion ddarparu cyd-destun eu hysgolion, gan amlinellu o fewn hynny unrhyw waith blaenorol a gwblhawyd ganddynt i wella dealltwriaeth yr ysgol a'r staff o'r cwricwlwm newydd. Roedd mwyafrif yr ysgolion (10/16) yn amlygu bod eu profiad blaenorol fel Ysgol Arloesi wedi rhoi'r arbenigedd a'r wybodaeth iddynt ynghylch y Cwricwlwm i Gymru, ac maent wedi defnyddio'r profiad i greu sylfaen lle'r oedd ymarferwyr eisoes yn meddu ar lefel o ddealltwriaeth ac wedi gallu adrodd yn ôl ac ymgysylltu gyda'r canllawiau. Mewn un achos, roedd adroddiad ysgol yn nodi,

*'[Ysgol] fel Ysgol Arloesi yn y Dyniaethau rhwng mis Ionawr 2017 a Mawrth 2019. Derbyniodd staff a llywodraethwyr gyflwyniadau llawn gwybodaeth ar y Pedwar Diben, y 12 egwyddor addysgeg a strwythur y chwe Maes Dysgu a Phrofiad'. - Ysgol 3*

Roedd ysgolion yn yr achos hwn hefyd yn amlygu ymarferion ac ymgynghoriadau mewnol blaenorol (9/16) a hyfforddiant (4/16) a gwblhawyd ganddynt gan ganolbwyntio ar addysgeg o fewn eu hysgol ers iddyn nhw ddod yn ymwybodol o'r cwricwlwm newydd,

*'Mae tîm addysgeg sefydledig yn cwrdd yn rheolaidd i drafod agweddau addysgeg a sicrhau bod addysgu proffesiynol wrth wraidd pob datblygiad yn yr ysgol. Mae hyn yn amrywio o sesiynau datblygu proffesiynol, annibyniaeth disgyblion, gwahaniaethu ac addysgu ymatebol, hyd at ymddygiad, addysgu, dysgu, hyfforddi, cynllunio neu gefnogaeth ar y cyd wedi'i deilwra gan ddefnyddio technoleg dosbarth megis IRS connect'. - Ysgol 4*

Mae'n ddiddorol nodi bod y tueddiadau yma i'w gweld ar draws ystod eang o ysgolion gan gynnwys Ysgolion Rhagbrofi llai a mwy gwledig.

## 2.2 Ymgysylltiad gyda'r Gymuned a Rhwydweithiau

O fewn yr adroddiadau, roedd mwyafrif yr ysgolion (10/16) yn awgrymu bod ganddynt gysylltiadau da gyda'u cymunedau a'u rhwydweithiau lleol, yn enwedig ysgolion eraill o fewn eu clwstwr y maen nhw'n rhannu gwybodaeth ac arferion da gyda nhw yn ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd y rhwydweithiau hyn yn enwedig o amlwg mewn ysgolion cynradd, gyda phob un o'r Ysgolion Rhagbrofi cynradd yn nodi bod hynny'n wir (6/16). Yn yr achosion hyn, mae'r Ysgolion Rhagbrofi yn cael eu gweld fel model enghreifftiol o arfer dda, ac yn ystyried eu hunain yn y modd hwn, gan ddarparu gwybodaeth a dulliau arfer dda lwyddiannus i eraill,

*'Ers y dechrau, rydym ni wedi rhannu ein harferion yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ac mae staff wedi cyflwyno mewn digwyddiadau rhanbarthol, gan rannu ein taith ar drywydd adnewyddu'r cwricwlwm ac arferion, a hefyd wedi cefnogi nifer o ysgolion i ddatblygu eu cwricwlwm. Mae'r ysgol wedi creu perthynas dda gyda'r ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd yn y dalgylch gan gynnal diwrnodau hyfforddiant mewn swydd ar y cyd. Mae'r ysgolion hyn wedi cydweithio ar brosiect ymchwil gweithredol yn ymchwilio i faes meta wybyddiaeth. Mae gan bob ysgol Arweinydd Dysgu penodol sy'n cael amser i ddysgu ac i ymchwilio cyhoeddiadau cenedlaethol a rhyngwladol ac erthyglau'n ymwneud â'r pwnc ac yn adrodd yn ôl i'r staff a chreu llyfrgell electronig. Ceir cysylltiadau cryf rhwng ysgolion y dalgylch ac mae ystod o ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd wedi cael eu trefnu ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf lle bydd ein hysgol yn rhannu'r gwaith yr ydym ni wedi'i wneud a'u cefnogi yn ystod eu camau nesaf'. - **Ysgol 13***

O fewn yr adroddiadau, roedd nifer fechan o ysgolion (5/16) hefyd yn amlygu eu bod wedi ceisio ymgysylltu gyda'r gymuned ehangach, a rhieni'n benodol, ers ymgysylltu gyda'r cwricwlwm newydd yn y lle cyntaf. Mae'r ymgysylltiad hwn i'w weld yn ddwyochrog yn y mwyafrif o achosion, gydag ysgolion yn ceisio ymgysylltu gyda rhieni a'r gymuned ehangach a rhannu gwybodaeth gyda nhw am y cwricwlwm newydd gan ddod â chyd-destun y gymuned i mewn i'w haddysgu ar yr un pryd,

*'Roedd cwricwlwm yr ysgol yn anelu at ganolbwyntio ar yr ardal leol a'r gymuned ehangach a'r bobl oddi mewn iddi. Mae'r ysgol hefyd wedi gwneud cysylltiadau gyda'r gymuned ehangach drwy weithio ar y cyd gydag ysgolion, prosiectau a phobl leol. Mae'r ysgol yn trefnu gweithdai i rieni/gofalwyr i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â diwygio addysg a'r datblygiadau i'n cwricwlwm a'n harferion addysgeg. Mae'r bwrdd llywodraethu yn llwyr ymwybodol o'r datblygiadau yn yr ysgol ac yn parhau i ystyried effaith hynny ar lefel strategol'. - **Ysgol 13***

Mewn dau achos, bu ysgolion hefyd yn amlinellu yn eu hadroddiad eu bod wedi sefydlu newyddlen a/neu blog er mwyn sicrhau eu bod yn rhannu gwybodaeth am y cwricwlwm newydd a'u cynnydd gydag eraill.

## 3 Cynllunio a Gweithgareddau

### Crynodeb o'r adran

- Mae mwyafrif yr Ysgolion Rhagbrofi wedi ffurfio gweithgorau a/neu wedi nodi arweinwyr cwricwlwm ymysg eu staff i arwain y cwricwlwm newydd yn ei flaen (10/16).
- Mae pob ysgol naill ai wedi rhoi prosesau ffurfiol neu anffurfiol ar waith i'w galluogi i adnabod a sefydlu cyswllt rhwng y datganiadau Beth sy'n Bwysig, camau cynnydd a Meysydd Dysgu a Phrofiad, ynghyd â'r hyn sy'n ofynnol yng nghyd-destun eu hysgolion eu hunain.
- Roedd ysgolion gan amlaf (9/16) yn nodi eu bod wedi darparu hyfforddiant yn ymwneud â'r cwricwlwm newydd i'w staff. Er ei fod yn amrywio o ysgol i ysgol, roedd y math o hyfforddiant yn dueddol o ganolbwyntio ar y theori a'r addysgeg a bwysleisir arnynt yn y cwricwlwm newydd arfaethedig.
- Roedd pob ysgol yn pwysleisio pwysigrwydd cymryd amser i wella eu dealltwriaeth o'r cwricwlwm newydd, ei wersi damcaniaethol, a'r hyn y mae'n ei olygu i'w hysgolion.

### 3.1 Cynllunio ar gyfer Cwricwlwm i Gymru

Yn eu hadroddiadau, roedd mwyafrif yr Ysgolion Rhagbrofi (10/16) yn nodi eu bod wedi llunio gweithgorau a/neu wedi penodi arweinwyr cwricwlwm ymysg eu staff i arwain y cwricwlwm newydd yn ei flaen, wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Yn yr achosion hyn, roedd ysgolion yn disgrifio bod y gweithgorau a/neu'r arweinwyr yn derbyn cyfle i ymgysylltu gyda'r cwricwlwm newydd, yn enwedig y cysyniadau, y datganiadau Beth sy'n Bwysig a'r camau cynnydd ar gyfer pob MDPH yn fanwl, a dywedodd tair ysgol arall eu bod yn cynnal proses debyg mewn modd mwy anffurfiol, h.y. nid oedd gan yr ysgolion grŵp ffurfiol i gyflawni'r dasg, ond roedden nhw'n sicrhau bod cyfle i athrawon adrodd eu syniadau. Mae'r tueddiad hwn i'w weld yn gyson ar draws pob ysgol, er o bosibl, yn amlach mewn ysgolion cynradd ac ysgolion gyda llai o blant yn derbyn prydau ysgol am ddim na'r cyfartaledd cenedlaethol (oddeutu 21 y cant).

Er nad oedd pob ysgol yn nodi bod strwythur staffio wedi cael ei roi yn ei le i ddylunio'r cwricwlwm ac i gynllunio ar gyfer ei gyflwyno, mae'n bwysig nodi bod pob ysgol a oedd wedi cynnwys eu dull o gynllunio yn eu hadroddiad (13/16) wedi disgrifio bod ganddynt broses a oedd yn eu galluogi i adnabod a sefydlu cysylltiadau rhwng y datganiadau Beth sy'n Bwysig y camau cynnydd a'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, ynghyd â'r hyn a fyddai'n ofynnol yng nghyd-destun eu hysgolion penodol eu hunain. Yn y mwyafrif o achosion, roedd y rhain yn archwiliadol ac yn fyfyrion eu natur, gydag ysgolion yn manteisio ar hyn fel cyfle i ystyried eu haddysgeg eu hunain, strwythurau mewnol ac anghenion dysgwyr. Mewn un adroddiad, dywedodd un ysgol,

*'[Rydym ni wedi gallu] myfyrio ar y cyd ar gysylltiadau gyda'r Pedwar Prif Ddiben ac edrych ar eu perthnasedd i'n disgyblion drwy holi ai'r datganiadau yma yw'r hyn sy'n bwysig i'n disgyblion mewn gwirionedd? Bu athrawon yn ystyried sut mae'r rhain yn effeithio ar gynllunio fel man cychwynnol o ganolbwyntio ar y rheswm 'pam' yn yr hyn yr ydym yn ei ddysgu'. - Ysgol 1*

Mewn adroddiadau ysgolion ar gynllunio, amlygwyd mewn tri o achosion bod athrawon wedi cyflawni hyfforddiant wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd, ac roedd dwy ysgol yn amlygu eu bod wedi mynychu digwyddiadau'n ymwneud â'r cwricwlwm newydd.

## 3.2 Gweithgareddau

Trwy gydol yr adroddiadau diwedd cyfnod, gellir gweld llwybr clir rhwng cynlluniau cychwynol ysgolion yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd a'r gweithgareddau a gwblhawyd o ganlyniad. Roedd pob ysgol, waeth pa fath na demograffeg, yn disgrifio gan amlaf (9/16) eu bod yn darparu hyfforddiant i staff (athrawon, llywodraethwyr a staff cefnogi) ar y cwricwlwm newydd. Er ei fod yn amrywio o ysgol i ysgol, roedd y math o hyfforddiant yn dueddol o ganolbwyntio ar y theori a'r addysgeg a bwysleisir arnynt yn y cwricwlwm newydd arfaethedig.

Roedd pob ysgol gan amlaf yn amlygu eu bod wedi cyflawni gweithgareddau'n canolbwyntio ar ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r cwricwlwm, ei wersi damcaniaethol a'r hyn mae'n ei olygu ar gyfer eu hysgolion. Er bod tystiolaeth o hynny yn yr hyfforddiant a amlygwyd yn flaenorol, cafwyd hefyd ddisgrifiadau o sgysiau anffurfiol yn cymryd lle ymysg uwch dimau arweinyddiaeth o fewn eu strwythur MDPH newydd. Yn y sgysiau hyn, amlygodd ysgolion eu bod yn canolbwyntio ar ganfod bylchau a'r hyn sy'n gyffredin rhwng yr hen gwricwlwm a'r Meysydd Dysgu a Phrofiad newydd, ynghyd â ffyrdd y maen nhw'n rhagweld y byddant yn cysylltu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, y Datganiadau Beth sy'n Bwysig a'r camau cynnydd. Y prif feysydd trafod a amlygwyd oedd sut i:

- Ddatblygu addysgeg gyson (7/16)
- Gweithredu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn y cwricwlwm (3/16)
- Cysylltu'r cwricwlwm newydd gyda gwerthoedd presennol yr ysgol (3/16)
- Gweithredu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn y cwricwlwm (2/16)
- Ystyried anghenion dysgu ychwanegol yn y cwricwlwm newydd (1/16).

Mae'n bwysig amlygu bod pryder yn yr achos hwn yn ymwneud â'r cysylltiadau gyda'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol wedi cael eu codi'n nodweddiadol gan ysgolion uwchradd gan awgrymu eu bod yn pryderu ynglŷn â sut y bydd y fframweithiau hyn yn cael eu hymgorffori yn y cwricwlwm newydd. Lle'r oedd ysgolion yn amlygu'r gweithgareddau maen nhw'n ymgymryd â nhw ar hyn o bryd, roedd mwyafrif yr ysgolion (11/16) hefyd yn nodi eu bod yn defnyddio diwrnodau hyfforddiant mewn swydd i rannu gwybodaeth a thrafod y cwricwlwm newydd gyda staff, a rhoddodd un ysgol dystiolaeth ei bod wedi creu blog i hysbysu ysgolion eraill, rhieni a staff o'r modd yr oedd yr ysgol yn gweithredu'r cwricwlwm newydd.

## 4 Cwestiynau Lefel Uchel

### Crynodeb o'r adran

- Roedd mwyafrif yr ysgolion yn cytuno i raddau bod deilliannau cyflawniad y Cwricwlwm i Gymru yn adlewyrchu'r egwyddorion cynnydd (9/10), gan amlygu'n benodol bod camau cynnydd yn addas ac yn briodol i ddysgwyr a bod y canllawiau o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad yn glir ac yn ddealladwy (5/9).
- Rhybuddiwyd y byddai angen manylion cynllunio pellach ar gyfer gwersi (7/10) er mwyn sicrhau'r llwybrau cynnydd clir a phriodol, ac nad oedd y deilliannau cyflawniad a chynnydd a'r iaith o fewn y datganiadau Beth sy'n Bwysig yn gyson ar draws pob MDPH (6/10).
- Roedd mwyafrif yr ysgolion yn gadarnhaol ynglŷn â'r adrannau Cynllunio ar gyfer Dysgu o fewn y canllawiau a ddarparwyd iddynt (6/11), gan awgrymu eu bod yn glir ac yn ddealladwy ar y cyfan (4/6) sy'n galluogi ysgolion i gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd gyda syniad clir o'r egwyddorion addysged a'r cysylltiad rhwng y Meysydd Dysgu a Phrofiad (3/6).
- Er bod canllawiau'n cael eu hystyried yn bositif, roedd ysgolion yn awgrymu y dylid ystyried y canllawiau fel y maen nhw ar hyn o bryd fel man cychwyn, a'u defnyddio fel sbardun i annog ysgolion i ymgysylltu gyda'r broses, ond y byddai angen manylion pellach wrth i'r gwaith o weithredu'r cwricwlwm newydd barhau.
- Roedd ysgolion yn cytuno yn gyffredinol bod yr egwyddorion a'r adrannau yn y cynlluniau asesu cenedlaethol yn ddefnyddiol er mwyn datblygu trefniadau asesu lleol (6/9) ond y dylai hyn unwaith eto gael ei ystyried yn fan cychwyn i annog ysgolion.
- Pryder cyffredin i ysgolion oedd bod y deilliannau asesu a chyflawni a amlinellir yn y cynigion cenedlaethol ar eu ffurf bresennol yn gyfyngedig, o ganlyniad i debygrwydd i feini prawf asesu blaenorol a/neu mewn rhai achosion, diffyg eglurdeb, ac roedd rhai ysgolion yn pryderu y byddai hynny'n arwain at amrywioldeb eang mewn asesiadau yn seiliedig ar gyd-destun yr ysgol.

Fel rhan o'u rôl fel Ysgolion Rhagbrofi, gofynnwyd i ysgolion ymateb i dri chwestiwn lefel uchel yn eu hadroddiadau diwedd cyfnod er mwyn cael dealltwriaeth o brofiad yr ysgol yn unol â materion damcaniaethol. Ar gyfer cwestiynau lefel uchel un a dau, mae'r ymatebion wedi cael eu rhannu yn ôl MDPH.

### 4.1 A yw Deilliannau cyflawniad yn adlewyrchu'r egwyddorion cynnydd?

Ar y cyfan, roedd mwyafrif yr ysgolion (9/10) yn cytuno bod deilliannau cyflawniad y Cwricwlwm i Gymru yn adlewyrchu egwyddorion cynnydd i raddau. Yn yr achos hwn, roedd ysgolion yn nodi bod y deilliannau cyflawniad yn adlewyrchu egwyddorion cynnydd gan eu bod yn ystyried y camau cynnydd yn addas ac yn briodol i ddysgwyr (5/9) a bod y canllawiau o fewn y MDPH yn glir ac yn ddealladwy.

Yn y mwyafrif o achosion, fodd bynnag, rhybuddiwyd y byddai angen manylion cynllunio pellach ar gyfer gwersi (7/10) er mwyn sicrhau'r llwybrau cynnydd clir a phriodol, ac nad oedd y deilliannau cyflawniad a chynnydd a'r iaith o fewn y datganiadau Beth sy'n Bwysig yn gyson ar draws pob MDPH (6/10). Er bod dealltwriaeth bod canllawiau eang yn fwriad o fewn y Cwricwlwm i Gymru i alluogi ysgolion i ddylunio a gweithredu'r cwricwlwm mewn modd sy'n briodol iddyn nhw, amlygwyd bod hyn yn gallu bod yn faich ar ysgolion ar brydiau

*'Roedd ymarferwyr cynradd yn ystyried gwahanol egwyddorion o gynnydd ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad yn llethol. Mae nifer o egwyddorion cynnydd sy'n debyg o ran natur - a fyddai modd gwneud y rhain yn fwy cyffredinol ar gyfer y cwricwlwm cyfan?' - Ysgol 6*

*'Ar draws pob datganiad Beth sy'n Bwysig - [ceir] nifer sylweddol o ddatganiadau. Wedi dechrau cwestiynu perthnasedd pob un ohonynt, yn enwedig o safbwynt ymarferydd cynradd'. - Ysgol 2*

*'Mae angen blwch i amlygu Egwyddorion Cynnydd sydd yr un fath ar gyfer pob maes dysgu. Mae'r Egwyddor Cynnydd cyntaf yn gyffredinol yn llawer yn rhy anodd ar gyfer Camau Cynnydd 1 a 2. Mae'r iaith yn llawer rhy gymhleth, e.e. 'dealltwriaeth gysyniadol'. - Ysgol 9*

Wrth ystyried a yw deilliannau cyflawniad yn adlewyrchu egwyddorion cynnydd, a sut maen nhw'n gwneud hynny, awgrymodd ysgolion hefyd y gallai hyn fod yn ddwys o ran llafur ar lefel ysgol o ganlyniad i anghysondeb gyda llwybrau cynnydd Meysydd Dysgu a Phrofiad a datganiadau Beth sy'n Bwysig, er y gallai deilliannau cyflawniad adlewyrchu egwyddorion cynnydd.

### Y Celfyddydau Mynegiannol

Roedd pob un o'r tair ysgol a fu'n edrych ar egwyddorion cynnydd a chyflawniad MDPH Y Celfyddydau Mynegiannol yn gadarnhaol ynglŷn â'r llwybrau cynnydd clir sy'n berthnasol ar draws y MDPH. Yma, roedd ysgolion yn awgrymu bod yr egwyddorion cynnydd, cymhlethdod, dyfnder rheoli a'r annibyniaeth yn cyd-fynd yn dda gyda'r datganiadau Beth sy'n Bwysig a'r gofynion o ran sgiliau, gwybodaeth a phrofiad, a bod athrawon yn gefnogol o'r deilliannau cyflawniad sy'n adlewyrchu continwwm addysg yn hytrach nag ymarfer ticio blychau.

Roedd y prif bryder a fynegwyd gan ddwy o'r tair ysgol yn ymwneud ag asesu dysgwyr, o ganlyniad i'r dull continwwm o ddysgu er bod athrawon yn cytuno i raddau y byddai hyn yn gwneud cynnydd yn anodd ei labelu:

*'Mae'n bosibl i ddysgwyr symud ymlaen ac yn ôl wrth brofi gweithgareddau yn Y Celfyddydau Mynegiannol'. - Ysgol 7*

Wrth edrych o'r safbwynt hwn, roedd ysgolion yn awgrymu efallai nad oedd athrawon yn ddigon parod i ddarparu'r lefel o arbenigedd sy'n angenrheidiol i arwain dysgwyr drwy'r llwybr cynnydd newydd.



## Iechyd a Lles

Ym mhob un o'r pum ysgol a fu'n adrodd ar aliniad yr egwyddorion cynnydd a'r deilliannau cyflawniad, cafwyd cydsyniad eang ar draws pob ysgol fod y MDPH Iechyd a Lles yn cynnig cynnydd effeithiol, y gellir ei weld ar gontinwwm yn debyg i MDPH Y Celfyddydau Mynegiannol (3/5). Mae'r continwwm yma, yn ôl awgrymiadau'r ysgol, yn hanfodol ar gyfer y MDPH, gan ei fod yn cyd-fynd â thwf datblygiadol dysgwyr unigol,

*'Gwelwyd gwerth gallu symud yn ôl ac ymlaen rhwng camau cynnydd, o ystyried newidiadau mewn amgylchiadau personol a allai effeithio ar iechyd a lles'. -*

### **Ysgol 7**

Y prif bryder a fynegwyd gan ysgolion yn yr achos hwn fodd bynnag oedd prinder hyfforddiant a gwybodaeth a allai fod gan yr athrawon ar hyn o bryd (3/5). Yn y tri adroddiad sy'n nodi hyn, roedd yr ysgolion yn nodi y gallai prinder adnoddau a phrofiad athrawon yn y maes hwn arwain at her o ran cynnydd dysgwyr. Amlygwyd hyn yn benodol gan un ysgol a oedd yn amlinellu eu haddewid i gefnogi ac annog addysg Perthnasau a Rhyw yn ôl arweiniad y cwricwlwm newydd, ond roeddent hefyd yn awgrymu nad oedd ganddyn nhw'r offer na'r adnoddau i gyfiawnhau'r dewis hwn i rieni a'r gymuned a allai anghytuno gyda'r newidiadau. Amlygwyd hefyd gan un ysgol nad oedd pob datganiad Beth sy'n Bwysig yn cynnwys llwybrau cynnydd clir.

## Dyniaethau

Mae'n ddiddorol nodi, yn wahanol i'r adroddiadau'n ymwneud â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill, roedd yr ysgolion a oedd yn adrodd ar Faes Dysgu a Phrofiad Y Dyniaethau'n dueddol o gymharu eu hegwyddorion cynnydd a'u deilliannau cyflawniad gyda Meysydd Datblygu a Phrofiad eraill (5/6). Yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn (4/6), roedd ysgolion yn awgrymu y byddai cynnydd o fewn y MDPH Dyniaethau yn gwella gyda mwy o fanylder a therminoleg sy'n benodol i'r sector megis drwy labelu llwybrau cynnydd a chynnwys geiriau "sbardun" ar gyfer egwyddorion cynnydd. Dywedodd un ysgol,

*'Nid yw'r Dyniaethau bob amser yn symud o ddealltwriaeth i ofynion mwy soffistigedig, fel y Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill, mae'r testun yn nodi beth yw ystyr mwy soffistigedig yn unig. Mae'r Celfyddydau Mynegiannol ac Iechyd a Lles yn cael ei rannu ymhellach i is-benawdau, ond nid yw'n fanwl iawn'. -*

### **Ysgol 13**

Er bod un ysgol hefyd yn amlygu bod gwahaniaeth rhwng y Meysydd Dysgu a Phrofiad i'w ddisgwyl, roedd yr ysgolion eraill yn awgrymu y byddai hyn yn galluogi athrawon i gyfyngu ar ddyblygu. Roedd dwy ysgol hefyd yn yr achos hwn yn hynod gadarnhaol ynghylch yr egwyddorion cynnydd a oedd yn amlwg o fewn MDPH Y Dyniaethau, gan awgrymu ei fod yn dangos sut y bydd dysgwyr yn gallu gweithio gyda ffynonellau mwy soffistigedig o wybodaeth a dangos gwybodaeth ddyfnach.

## Iaith, Llenyddiaeth a Chyfathrebu

O'r pum ysgol a fu'n adrodd ar gynnydd a deilliannau cyflawniad MDPH Iaith, Llenyddiaeth a Chyfathrebu, deallir for rhai (3/5) yn mynegi pryder ynglŷn ag addasrwydd deilliannau cyflawniad ar gyfer dysgwyr, yn enwedig wrth awgrymu y gallai deilliannau cyflawniad iaith Gymraeg fod yn heriol i ddysgwyr a gofynion sgiliau athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, ac yn yr un modd, y gallai deilliannau cyflawniad iaith Saesneg fod yn heriol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Roedd hyn yn cael ei nodi'n benodol mewn adroddiadau gan ysgolion cynradd. Dywedodd un ysgol gynradd,

*'Er mwyn i blant fod yn gwbl ddwyieithog mae'n rhaid i ni eu hymdrochi 100% o'r amser yn yr iaith Gymraeg. Rydym ni'n pryderu bod disgwyliad i ddisgyblion blynyddoedd cynnar drafod ystod o ieithoedd eraill a allai eu drysu yn eu cyfnod cychwynnol hwn o ddysgu iaith. Mewn nifer o ysgolion Beth sy'n Bwysig, ychydig iawn o blant sy'n dechrau'r ysgol gydag unrhyw ddealltwriaeth am y Gymraeg a'r iaith'. – Ysgol 12*

Ac roedd un ysgol yn disgrifio bod disgwyliadau ar gyfer ysgrifennu mewn deilliannau asesu ysgolion cynradd yn 'aruthrol' a allai arwain at golli diddordeb dysgwyr yn gynnar iawn.

Amlygwyd gan ddwy ysgol y byddai athrawon angen mwy o hyfforddiant ac arbenigedd yn y MDPH yn ei ffurf bresennol i ymdrin â'r holl gynnwys mewn nifer o ieithoedd. Awgrymwyd hefyd mewn dau achos arall fod y deilliannau cyflawniad yn cefnogi datblygiad sgiliau a gwybodaeth mewn gwahanol ieithoedd sy'n adlewyrchu egwyddorion cynnydd.

## Mathemateg a Rhifedd

O'r chwe ysgol a fu'n ymchwilio i'r cwestiwn lefel uchel hwn yn ymwneud â MDPH Mathemateg a Rhifedd, roedd y mwyafrif helaeth (5/6) yn awgrymu eu bod yn bositif ynghylch dull cyffredinol y MDPH. Mewn un achos, amlygodd un ysgol fod y llinynnau drwy'r camau cynnydd ym maes Mathemateg a Rhifedd yn fwy eglur nag mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill ac y dylid 'cymeradwyo' hynny. Dywedodd un ysgol,

*'Credwn fod hon yn ffordd dda o gefnogi disgyblion i ddefnyddio eu sgiliau o fewn y MDPH ac ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill mewn sefyllfaoedd bob dydd'. - Ysgol 7*

Fodd bynnag, roedd pump o'r chwe ysgol yn disgrifio bod strwythur y MDPH yn ei ffurf bresennol yn anodd ei ddeall o ganlyniad i lwybrau cynnydd heb eu labelu nad ydynt yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r datganiadau Beth sy'n Bwysig o fewn y cynllun ar gyfer dysgu. O ganlyniad, roedd ysgolion yn awgrymu bod angen mwy o gyswllt ynghyd â chyswllt uniongyrchol rhwng y camau cynnydd, egwyddorion a'r datganiadau Beth sy'n Bwysig.

*'Mae'n anodd dilyn y cynllun ar gyfer dysgu. Mae ein Pennaeth Adran wedi eu gosod mewn adrannau ar gyfer y 4 datganiad Beth sy'n Bwysig ac wedi ail ysgrifennu eu camau cynnydd er mwyn galluogi rhuglder. Ceir pryder y bydd ysgolion yn creu dogfennau dwys iawn o ran llafur y dylem fod yn eu darparu ar lefel genedlaethol mewn gwirionedd er mwyn sicrhau mai ymgysylltu gyda dyluniad cwricwlwm ar lefel ysgol yw'r flaenoriaeth yn hytrach nag ail-ddylunio dogfennau i hwyluso'r broses gynllunio'. - Ysgol 2*

Roedd ysgolion hefyd yn amlygu yma bod agweddau o'r iaith a ddefnyddiwyd yn y camau cynnydd tu hwnt i gyrraedd y gynulleidfa a fwriedir. Roeddent yn credu bod yr eirfa gyda'r cynnydd yn or-gymhleth, yn enwedig yn y Gymraeg, a dywedodd un ysgol nad yw'r iaith yn rhan o eirfa bresennol yr athrawon o ddydd i ddydd.

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Roedd mwyafrif yr ysgolion a fu'n ystyried MDPH Gwyddoniaeth a Thechnoleg o ran y deilliannau cyflawniad ac a ydynt yn adlewyrchu'r egwyddorion cynnydd yn awgrymu bod y gwahanol agweddau'n glir a'u bod yn galluogi athrawon i ganolbwyntio ar y wybodaeth, y sgiliau a'r arbenigedd sy'n ofynnol gan ddysgwyr (3/4). Mewn un achos lle nad oedd un ysgol yn cytuno â hyn, awgrymwyd bod dryswch o ganlyniad i wahanol ddatganiadau Beth sy'n Bwysig yn cynnwys gwahanol egwyddorion cynnydd, a bod angen bod yn gyson a defnyddio iaith glir ar draws pob un o'r egwyddorion cynnydd, Er enghraifft,

*'Gallai'r defnydd o'r gair 'ymhelaethu' - olygu yn fwy cymhleth neu greadigol'.  
- Ysgol 6*

Er bod ysgolion yn yr achos hwn hefyd yn cefnogi'r syniad y byddai modd cynrychioli cynnydd o fewn y MDPH hwn naill ai drwy 'ganlyniad ffisegol neu ddeallusol' i raddau helaeth, amlygwyd hefyd gan un ysgol bod athrawon yn anghytuno y byddai syniadau dysgwyr yn datblygu o'r haniaethol i'r diriaethol er mwyn dangos cynnydd, gan awgrymu y byddai cynnydd yn cael ei ddangos i'r gwrthwyneb, h.y. syniadau'n mynd o fod yn ddiriaethol i fod yn haniaethol.

## 4.2 Yn gyffredinol, pa mor ddefnyddiol yw'r adrannau Cynllunio ar gyfer Dysgu yn y Canllawiau Maes Dysgu a Phrofiad er mwyn cynorthwyo ymarferwyr i gynllunio cwricwlwm ar gyfer yr holl ddysgwyr?

O'r 11 ysgol a ymatebodd yn uniongyrchol i'r cwestiwn lefel uchel hwn, roedd y mwyafrif yn bositif am yr adrannau Cynllunio ar gyfer Dysgu yn y canllawiau a dderbyniwyd ganddynt (6/11). Roedd ysgolion yn nodi yma bod y canllawiau a ddarparwyd yn glir ac yn ddealladwy ar y cyfan (4/6) a oedd yn galluogi ysgolion i gynllunio cwricwlwm newydd gyda syniad clir o'r egwyddorion a'r nodau addysgeg, gan hefyd gysylltu'n glir gyda'r Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill (3/6),

*'Teimlwn fod yr adran Cynllunio ar gyfer Dysgu yn adnodd defnyddiol a fydd yn helpu ysgolion i gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer eu cyd-destun. Byddwn yn ystyried a fyddai defnyddio'r adran Cynllunio ar gyfer Dysgu fel adnodd yn sicrhau bod y deilliannau cyflawniad yn cael sylw. Teimlwn y byddent yn gallu cynnig sicrwydd bod cynllunio'n digwydd ar gyfer y Pedwar Diben a lleihau'r ffocws ar ddeilliannau cyflawniad unigol ar draul y cwricwlwm yn ei gyfanrwydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn ystod y cyfnod cychwynnol. Fodd bynnag, gan nad yw'r adran Cynllunio ar gyfer Dysgu yn statudol ac na fydd yn parhau, mae'n bosibl na fyddai'n werth ei wneud. Mae hyn yn drueni! Rydym ni'n credu y gallai'r adran Cynllunio ar gyfer Dysgu fod yn un o agweddau mwyaf defnyddiol y Cwricwlwm i Gymru. Mae'n dod yn ddefnyddiol iawn er mwyn cefnogi'r gwaith cynllunio sy'n gyson â'r Egwyddorion Addysgeg ac yn datblygu'r Pedwar Diben'. - Ysgol 5*

Er mai dim ond un ysgol oedd yn negyddol iawn am yr adrannau Cynllunio ar gyfer Dysgu yn y canllawiau MDPH, gan ei bod yn credu eu bod yn rhy gymhleth, roedd yr adroddiadau'n nodi thema ehangach, gyda phum ysgol yn awgrymu eu bod yn credu bod y canllawiau'n fan cychwyn da, a fyddai angen rhagor o fanylder wrth i'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm barhau, ond yn y cyfamser eu bod yn annog ysgolion. Yn yr achos hwn, roedd pedair ysgol yn awgrymu eu bod yn credu bod y canllawiau presennol yn rhy wrthrychol ac eang, ac roedd dwy ysgol yn nodi eu bod yn credu bod y canllawiau'n rhy gyfarwyddol. Mae hyn yn awgrymu bod tasg y canllawiau yn her ynddo'i hun, gan orfod ceisio canfod man canol rhwng bod yn rhy eang a bod yn rhy gyfarwyddol. Dywedodd un ysgol,

*'Roedd y mwyafrif yn dod i'r casgliad nad oeddent yn ddefnyddiol wrth ddylunio'r cwricwlwm ond yn ddefnyddiol ar gyfer awgrymiadau. Roedd yr adborth yn rhanedig ynglŷn â natur y datganiadau hyn. Roedd rhai'n falch nad oeddent yn gyfarwyddol (iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu) ac eraill yn meddwl eu bod yn rhy eang ac felly bod eu defnydd yn gyfyngedig'. - Ysgol 15*

Er mai ychydig o ysgolion wnaeth gyfeirio'r cwestiwn lefel uchel hwn i Feysydd Dysgu a Phrofiad penodol, mae'r casgliadau'n cael eu hamlinellu isod.

### Y Celfyddydau Mynegiannol

Roedd y tair ysgol yn awgrymu bod y canllawiau a ddarparwyd ar gyfer MDPH Y Celfyddydau Mynegiannol wedi bod yn glir ac yn fanwl, gan gynnig cwmpas ar gyfer ystod o ddulliau darparu a fyddai modd eu hymgorffori i'r addysgu, a chynnig cyfle i'r dysgwyr fod yn greadigol a datblygu sgiliau rhyngdisgyblaethol,

*'Mae ein hymarferwyr Celfyddydau Mynegiannol yn hoff o'r ffaith bod y cwricwlwm Celfyddydau Mynegiannol yn cefnogi ac yn annog cyfuniad o ddulliau darparu; rhyngddisgyblaethol ac integredig. Maen nhw'n croesawu'r ffaith bod yr agwedd rhyngddisgyblaethol tuag at y celfyddydau yn golygu bod dysgu'n canolbwyntio ar un ddisgyblaeth ar y tro. Mae hyn wedi eu galluogi i gysylltu'r broses greadigol ar draws y disgyblaethau. Gall dysgwyr hefyd gysylltu eu sgiliau wrth gael eu harwain tuag at ddealltwriaeth a gwybodaeth fwy manwl o ddisgyblaeth benodol'. - Ysgol 7*

Fodd bynnag, er eu bod yn bositif am y manylion hyn a'r cyfleoedd, roedd ysgolion hefyd yn amlygu y byddai angen i athrawon ddatblygu mwy o sgiliau ac arbenigedd tu hwnt i'w gwybodaeth am y pwnc o ganlyniad i natur rhyngddisgyblaethol y MDPH. Cafodd hyn ei ddisgrifio mewn un achos yn 'llethol' ac yn 'ddisgwyliad enfawr' a allai arwain at beidio â darparu'r MDPH yn effeithiol. Lle amlygwyd hyn, roedd ysgolion yn cysylltu teimladau athrawon o gael eu llethu neu fod yn brin o hyder gyda diffyg arweiniad clir ar gyfer cynllunio gwersi, ac roeddent yn awgrymu bod hynny'n golygu nad oedd y deilliannau a'r nodau a fwriadwyd ar gyfer y MDPH yn cael eu dangos yn glir.

### Iechyd a Lles

Fel wrth adrodd ar gamau cynnydd a deilliannau cyflawniad y Meysydd Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, roedd y tair ysgol a atebodd y cwestiwn yn amlinellu eu bod yn bositif ynghylch y canllawiau sy'n galluogi ysgolion i gynllunio'r cwricwlwm yn hyblyg er mwyn bodloni gofynion lles y dysgwyr, a'r anogaeth i ddefnyddio ystod o adnoddau lleol, clwstwr, rhanbarthol a chenedlaethol,

*'Mae ein hymarferwyr Iechyd a Lles yn hoff o'r hyblygrwydd i gynllunio'r cwricwlwm i fodloni ystod eang o ofynion sy'n newid. Cytunwyd y dylid cynhyrchu cwricwlwm yn seiliedig ar ofynion lleol ac y dylid rhoi ystyriaeth i dueddiadau cenedlaethol a byd eang sy'n effeithio ar iechyd a lles'. - Ysgol 7*

Mewn un achos, fodd bynnag, dywedodd un ysgol nad oedd yn credu bod yr adran Cynllunio ar gyfer Dysgu yn gysylltiedig â'r deilliannau Dysgu a Chyflawni o ganlyniad i brinder manylion ac amwysedd ar gyfer y camau cynnydd. Awgrymwyd y byddai modd goresgyn hyn drwy ddarparu canllawiau ychwanegol ar gyfer llwybrau cynnydd a byddai angen manylion yn ymwneud â chamau cynnydd ar gyfer pob cyfnod allweddol o ddysgu.

## Dyniaethau

Roedd yr holl adborth yn ymwneud yn benodol â Chynllunio a Dysgu MDPH Y Dyniaethau (o dair ysgol) yn gadarnhaol. Yn benodol, roedd ysgolion yn awgrymu bod yr adran Cynllunio a Dysgu o fewn canllawiau MDPH yn fan cychwyn da i athrawon i ddatblygu eu dyluniad eu hunain ar lefel yr ysgol a datblygu gwybodaeth bynciol y gellid ei ddatblygu ar gyfer ystod eang o oedrannau. Gwelwyd fod y canllawiau'n gyfle da i athrawon gael mwy o awtonomiaeth, hyblygrwydd a gallu darparu addysg gyfannol sy'n cael ei integreiddio gyda'r datganiadau Beth sy'n Bwysig.

Yr unig awgrym a wnaed yn yr adran hon oedd y byddai'n bosibl cynnwys mwy o fanylder er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm yn parhau i fod yn gyson ar draws pob ysgol yng Nghymru. Ymhelaethodd un ysgol ar hyn, gan awgrymu, er eu bod yn gadarnhaol ynglŷn â'r dull ailadroddol dan ystyriaeth, roedd pryderon y byddai angen darparu cynllun addysgu fwy manwl er bod rhestr hir o gamau cynnydd.

## Iaith, Llenyddiaeth a Chyfathrebu

Mewn tri o'r pedwar adroddiad ysgol a fu'n canolbwyntio ar ganllawiau MDPH iaith, Llenyddiaeth a Chyfathrebu, awgrymwyd y byddai athrawon yn elwa o dderbyn canllawiau clir ar gamau cynnydd mewn iaith wedi'i symleiddio, e.e. nododd un ysgol fod y defnydd o 'etymoleg' yn anghyraeddadwy. Er bod dau achos lle'r oedd ysgolion yn amlygu'r cysylltiadau uniongyrchol rhwng gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu a'r pwyslais ar iaith, nodwyd yn aml fod diffyg eglurdeb ynglŷn â'r hyn a oedd yn cael ei gynnwys o fewn y camau cynnydd yn y canllawiau,

*'Mae'r adran Gynllunio a Dysgu yn gymharol ddryslyd yn y modd y mae'n cyfeirio at wahanol gamau cynnydd o fewn un cam e.e. mae cam gynnydd 4 yn cynnwys nifer o brofiadau/sgiliau/gwybodaeth o gamau cynnydd 1/2/3. Mae hynny'n arwain at ddiffyg eglurdeb, e.e. mae 27 o brofiadau/sgiliau/gwybodaeth o fewn cam gynnydd 4 mewn un datganiad Beth sy'n Bwysig'. - Ysgol 9*

Awgrymodd un ysgol hefyd, er bod defnyddio nifer o ieithoedd yn gadarnhaol ac y gallai agor y drws i gynhwysiant cymdeithasol, gallai hyn arwain at anawsterau wrth gynnal ansawdd y tair iaith mewn ysgolion heb arbenigedd eang.

## Mathemateg a Rhifedd

Roedd mwyafrif yr ysgolion a oedd wedi cynnwys ymateb i'r canllawiau ar gyfer y MDPH Mathemateg a Rhifedd yn eu hadroddiadau (3/4) yn awgrymu bod y canllawiau Cynllunio ar gyfer Dysgu a ddarparwyd yn rhoi pwyslais digonol ar bwysigrwydd dysgwyr yn gallu cysylltu mathemateg a rhifedd gyda sefyllfaoedd bywyd go iawn, yn enwedig wrth amlygu'r hyblygrwydd a'r rhyddid sydd gan athrawon erbyn hyn i benderfynu faint o amser y dylid ei dreulio ar gweddau penodol o'r cwricwlwm.

Er bod yr hyblygrwydd yn cael ei ystyried yn beth da, gellir gweld bod y canllawiau'n cydbwysio rhwng bod yn rhy gyfarwyddol ac yn rhy eang, gyda dwy ysgol yn awgrymu y byddent yn dymuno derbyn rhagor o fanylion er mwyn iddynt allu cynllunio darpariaeth sy'n cydfynd ag ysgolion eraill ar draws Cymru,

*'Mae'r adrannau Cynllunio a Dysgu ar gyfer pob un o'r datganiadau Beth sy'n Bwysig yn amrywio o ran faint o fanylion a roddir. Yn y rhan fwyaf o achosion, ceir disgrifiadau eang iawn, a chafwyd cytundeb yn gyffredinol bod angen mwy o fanylion er mwyn cynllunio trefn a fyddai'n galluogi dysgwyr i gyflawni'r allbynnau dymunol'. - Ysgol 6*

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Dywedodd y tair ysgol fod y Canllawiau Cynllunio ar gyfer Dysgu ar gyfer y MDPH yn fuddiol i athrawon gan eu bod yn annog dulliau dysgu arbenigol i annog dulliau amlddisgyblaethol. Roedd yr ysgolion yn awgrymu bod hyn yn galonogol i athrawon gan ei fod yn cynnig cyfle iddynt gydweithio gydag arbenigwyr, busnesau lleol a sefydliadau sy'n seiliedig ar wyddoniaeth a thechnoleg wrth ddatblygu'r cwricwlwm. Amlygwyd hefyd bod natur eang y canllawiau yn galluogi athrawon i wneud penderfyniadau pwysig ynglŷn â threfnu cysyniadau gwyddonol a thechnolegol.

Un pryder a fynegwyd gan ysgol uwchradd fodd bynnag oedd na fyddai'r arbenigedd gofynnol ar gyfer y MDPH yn bosibl ym mhob ysgol o reidrwydd, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, a gallai hynny effeithio ar drefn y pynciau. Nododd yr ysgol,

*'Bydd hi'n haws gweld cynnydd dysgwyr ym maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg mewn lleoliadau uwchradd, lle bydd disgwyl iddynt brofi dulliau addysgu arbenigol mewn pynciau'. - Ysgol 7*

### 4.3 Pa mor ddefnyddiol yw pob un o'r egwyddorion a'r adrannau yn y cynigion asesu cenedlaethol er mwyn datblygu trefniadau asesu lleol?

Roedd dwy ran o dair o'r ysgolion a ymatebodd yn uniongyrchol i'r trydydd cwestiwn lefel uchel yn unfrydol bod yr egwyddorion a'r adrannau o'r cynigion asesu cenedlaethol yn ddefnyddiol er mwyn adeiladu trefniadau asesu lleol (6/9). Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd ysgolion yn amlygu eu cefnogaeth o agwedd y cynigion asesu cenedlaethol tuag at gynnydd, yn enwedig (5/6), fel man cychwyn i ysgolion ei ystyried wrth ddylunio eu cwricwlwm,

*'Croesewir y dylai Asesu ar gyfer Dysgu fod yn rhan sylweddol o'r cynigion a dylent hefyd atgyfnerthu'r addysgeg. Mae cynnydd yn rhan ganolog o'r cynigion asesu, fel y dylai fod, ac er mwyn i Asesu ar gyfer Dysgu sicrhau effaith go iawn, mae'n rhaid i ymarferwyr ddeall cynnydd, ac mae'n rhaid i'r cynnydd hwnnw fod yn sylfaen i'r profiadau dysgu. Felly mae sicrhau cynnydd yn y deilliannau cyflawniad yn allweddol. Mae'r symudiad oddi wrth ymarferion ticio blychau tuag at gynllunio ar gyfer asesu fel rhan o'r cwricwlwm yn rhywbeth i'w groesawu. [...] Felly mae'n hanfodol bod Ysgolion Arloesi ac Ysgolion Rhagbrofi yn ystyried yr agwedd hon tuag at asesu wedi'i gynllunio wrth ddylunio eu cwricwlwm. Dylai'r deilliannau cyflawniad a ddatblygir fod yno i sicrhau cynnydd a'i fod yn cael ei ddangos drwy asesiadau wedi'u cynllunio, a bod ysgolion yn meddu ar y sgiliau a'r isadeiledd TG i gadw cofnod o gynnydd dysgwyr'. - Ysgol 13*



Roedd ysgolion yn yr achos hwn hefyd yn amlygu, pe bai'r broses yn cael ei wneud yn effeithiol, byddai dulliau newydd o ddilysu ac asesu (3/6) yn lleihau'r baich ar athrawon ac yn galluogi dysgwyr i baratoi'r ffordd ar gyfer eu haddysg eu hunain, er enghraifft, drwy ddefnyddio e-bortffolio.

Fodd bynnag, er bod y cynigion asesu cenedlaethol a amlinellwyd yn ganllawiau da mewn rhai achosion, roedd ysgolion hefyd yn nodi pryderon ynglŷn â'r cynigion asesu cenedlaethol a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i ddatblygu trefniadau asesu lleol. Yn fwyaf cyffredin, awgrymodd chwe ysgol (6/9) bod y deilliannau asesu a chyflawni a amlinellir yn y cynigion cenedlaethol ar eu ffurf bresennol yn gyfyngedig o ganlyniad i'r tebygrwydd i feini prawf blaenorol a/neu mewn rhai achosion, eu diffyg eglurdeb, ac roedd rhai ysgolion yn pryderu y byddai hynny'n arwain at asesiad amrywiol iawn yn seiliedig ar gyd-destun yr ysgol (3/6). Yn dilyn hynny, nododd dwy ysgol eu bod yn pryderu y gallai'r dull arfaethedig o asesu gynyddu'r baich o ran adnoddau ar lefel leol, yn enwedig mewn ysgolion mwy ac ysgolion uwchradd,

*'Roedd defnyddio e-bortffolio yn cael ei ystyried yn gadarnhaol ar y cyfan, ond roedd pryder ynglŷn â sut fyddai hynny'n gweithio'n ymarferol mewn lleoliad ysgol uwchradd. Byddai disgybl sy'n eistedd gydag athro unigol mewn ysgol gynradd neu ysgol arbennig yn trafod eu gwaith (gyda rhiant) yn brofiad braf i bawb. Byddai'r un peth yn wir mewn ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, pe byddem yn ystyried nifer yr athrawon sy'n ymwneud â disgybl ar y lefel yma, byddai'n anodd iawn yn ymarferol. Os mai dyma'r ffordd yr hoffem hysbysu rhieni yn y dyfodol, mae angen i ni adolygu'r ffordd yr ydym yn adrodd i'r rhieni. A oes angen neilltuo dyddiau llawn ar gyfer cyfweiliadau gyda rhieni? Pwy fyddai'n ariannu hyn? Os mai er mwyn cadw cofnod o'r gwaith a gwblhawyd er mwyn rhannu gydag eraill pan fo angen yw'r e-bortffolio yn unig, mae hynny'n stori wahanol'. - Ysgol 15*

At hynny, er mwyn gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru trwy drefniant asesu lleol roedd tair ysgol yma yn nodi bod angen i'r broses weithredu fod yn fanwl ac yn fyfyrion drwy'r amser, fel y cyfle a gafwyd i wneud hynny drwy'r rôl Ysgol Arloesi.

Gan ystyried datblygu trefniadau asesu lleol, roedd nifer fechan o ysgolion (3/9) hefyd yn nodi eu bod yn rhagweld anhawster, gyda chanllawiau presennol yn sicrhau symudiad a chynnydd o wahanol lefelau cyfnod allweddol, yn enwedig o addysg ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd,

*'Fel ysgol 3-18 - rydym ni'n cydnabod yr angen i ail edrych ar y dulliau trosglwyddo - dyma fydd yr her fwyaf gan fod y system bresennol o safoni cwrs yn edrych ar giplun o blentyn yn unig. Gyda'r cwricwlwm newydd, mae angen edrych ar y disgybl cyfan - sut allwn ni wneud hyn? Mae'r ffaith ein bod ni'n ysgol 3-18 yn helpu, ond wrth gwrs, mae angen i ni ddatrys yr her ar yr un pryd â derbyn disgyblion o'r 13 ysgol gynradd arall. Byddwn ni'n edrych ar hyn fel ysgol 3-18 ac yn ehangu i'r clwstwr yn ystod y flwyddyn'. -Ysgol 12*

## 5 Effaith ar yr ysgol gyfan

### Crynodeb o'r adran

- Roedd bron i ddwy ran o dair yn amlygu effaith gadarnhaol y cwricwlwm newydd ar ddysgwyr o ganlyniad i gynnwys y dysgwyr ac ymgynghori â nhw ar y cynnwys newydd a'r dull o ddysgu (8/13).
- Roedd mwyafrif yr ysgolion yn nodi bod eu hathrawon yn bositif ac yn gefnogol o'r cwricwlwm newydd ar hyn o bryd (8/13).
- Er bod mwyafrif yr ysgolion yn bositif ynglŷn ag effaith y cwricwlwm newydd ar eu hathrawon, awgrymwyd hefyd fod angen i'r adrannau Cynllunio ar gyfer Dysgu yn y canllawiau ddarparu mwy o eglurdeb na'r hyn sy'n cael ei gynnwys ar hyn o bryd.
- Cafodd yr hyfforddiant a gwblhawyd gan y staff ei amlygu'n gyson yn adroddiadau'r Ysgolion Rhagbrofi fel y prif weithgaredd a wnaed fel rhan o gyflwyniadau ysgolion i'r cwricwlwm newydd.
- Roedd ysgolion yn nodi'n gyffredin bod y gallu i arweinwyr gydweithio (8/12) a'r cyfle iddynt baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru wedi cael effaith bositif.
- Roedd mwyafrif yr Ysgolion Rhagbrofi (10/14) yn nodi bod eglurdeb wrth asesu ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn her.

Yn yr adran hon, byddwn yn archwilio'r effaith y mae ysgolion yn credu y mae'r cwricwlwm yn ei gael ar eu staff, eu dysgwyr, rhieni a llywodraethwyr er mwyn deall mwy am yr ymateb i'r cwricwlwm newydd yn ystod y cam hwn yn ei weithrediad.

### 5.1 Dysgwyr

Mewn bron i ddwy ran o dair o'r achosion (8/13) roedd ysgolion yn awgrymu effaith bositif y cwricwlwm newydd ar ddysgwyr ar hyn o bryd o ganlyniad i gynnwys y dysgwyr ac ymgynghori â nhw ar y cynnwys newydd a'r dull o ddysgu. Roedd ysgolion yn disgrifio bod hyn yn eu galluogi i edrych ar anghenion a diddordebau dysgwyr wrth annog ymgysylltiad cyffredinol y dysgwyr yn eu haddysg, gyda phum ysgol yn nodi mwy o ymgysylltiad ymysg dysgwyr mewn gweithgareddau yn yr ysgol,

*'Mae effaith ein deilliannau hyd yma'n gosod ein hysgol yn Chwartel 1; mae dysgwyr yn cyflawni'n llawer uwch na'r disgwyliadau a gynlluniwyd. Ymgynghorwyd gyda dysgwyr gan ddefnyddio holiaduron dysgu ac addysgu ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Mae canfyddiadau cychwynnol yn dangos mwy o ymgysylltiad mewn gweithgareddau cyfoethogi'. - Ysgol 2*

Amlygwyd hefyd gan dair ysgol uwchradd, un ohonynt yn ysgol arbennig ar gyfer y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, bod y newid mewn addysgeg a chynllunio ar gyfer y cwricwlwm eisoes wedi arwain at newidiadau amlwg mewn cyrhaeddiad dysgwyr. Dywedodd un ysgol,

*Ynn fwyaf amlwg, mae lefelau Llafaredd yn uwch ar draws yr ysgol gyfan. Mae ail edrych ar addysgeg a chreu cyswllt clir rhwng Llafaredd a Darllen/Ysgrifennu, a oedd wedi cael ei wneud i raddfa lai wrth ddysgu tuag at amcanion asesu ar 'Gyfnod Allweddol 3, wedi rhoi pwyslais sylweddol ar ddysgwyr i ddefnyddio iaith yn rhugl. Rydym ni'n gweld tystiolaeth glir o'r effaith hwn mewn ysgrifennu ychwanegol a chywirdeb technegol'. - Ysgol 10*

Fodd bynnag, gwelwyd hefyd gan ysgolion eraill y gallai'r newid mewn trefniadau asesu Meysydd Dysgu a Phrofiad arwain at gyrhaeddiad is i'r dysgwyr yn y cyfnod cychwynnol, ac y byddai angen i ysgolion ac athrawon fod yn ymwybodol o hynny a'i reoli. Yn yr achos hwn, roedd ysgolion yn awgrymu (4/13), o ganlyniad i ddiffyg cynefindra athrawon gyda'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, llwybrau cynnydd ac asesiad, bod pryder y byddai'n anodd i athrawon bennu a yw dysgwyr yn cyflawni hyd eithaf eu gallu ai peidio, ac mewn un achos, y byddai ysgolion yn 'cyfiawnhau disgwyliadau isel o ddisgyblion gyda dyluniad y cwricwlwm'. Roedd Ysgolion Rhagbrofi a fynegodd y pryder hwn yn awgrymu bod angen darparu rhagor o fanylder o fewn y meini prawf asesu er mwyn osgoi hyn.

O ran effaith y cwricwlwm newydd ar ddysgwyr, roedd ysgolion hefyd yn awgrymu ar y cyfnod cychwynnol hwn yn ei weithrediad bod athrawon yn pryderu bod y cwricwlwm newydd i Gymru mewn perygl o gael ei dderbyn mewn gwahanol ffordd gan wahanol ddysgwyr, ac felly na fyddai mor gynhwysol â'r disgwyl. Amlygwyd y pwynt hwn mewn sawl ffordd wahanol. Mewn rhai achosion, roedd Ysgolion Rhagbrofi, yn enwedig ysgolion arbennig ar gyfer y rhai gydag anghenion dysgu ychwanegol, amlygwyd na fyddai modd defnyddio'r Meysydd Dysgu a Phrofiad a'r datganiadau Beth sy'n Bwysig newydd yn y ffordd a ragwelwyd gan Lywodraeth Cymru o reidrwydd gyda phob dysgwr unigol, o ganlyniad i wahanol dulliau dysgu a gallu. Mynegwyd pryderon gan un ysgol hefyd a oedd yn awgrymu nad oedd dysgu diwylliannol yn gyson nac wedi'i ymwreiddio yn yr un modd ar draws pob MDPH, gan roi tystiolaeth o ymwreiddio diwylliant Cymru yn y MDPH iaith, Llenyddiaeth a Chyfathrebu, ond nid yn y MDPH Dyniaethau, gan olygu y gallai dysgu diwylliannol amrywio o ysgol i ysgol.

## 5.2 Athrawon

O'r ysgolion a adroddodd effaith y cwricwlwm newydd ar eu hathrawon, roedd y mwyafrif yn nodi bod eu hathrawon yn bositif ac yn gefnogol o'r cwricwlwm newydd yma (8/13). Er bod y rhesymau dros hynny'n amrywio, roedd ysgolion gan amlaf yn awgrymu, fel Ysgolion Rhagbrofi, roedd athrawon yn bositif ynglŷn â chael amser i gynllunio a pharatoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Roedd yr ysgolion yn awgrymu bod hyn wedi galluogi athrawon i gydweithio ac archwilio'r dewisiadau sydd ar gael iddyn nhw. Nodwyd yn adroddiad un ysgol,

*'Mae pob athro wedi cydweithio ar agweddau gwahanol o'r cwricwlwm newydd, gan fanteisio ar y cyfnod fel cyfnod o brofi a dysgu o gamgymeriadau gydag ethos cefnogol. Maen nhw wedi rhannu profiadau, wedi dysgu oddi wrth ei gilydd, ac wedi datblygu hyder o hynny'. - Ysgol 11*

Roedd effeithiau positif cyffredin eraill a nodwyd yn adroddiadau'r ysgolion yn cynnwys y cyfleoedd a ddarperir gan y cwricwlwm newydd, yn benodol, y cyfle i athrawon ddatblygu eu sgiliau eu hunain (5/13) a'r cyfle i athrawon gael eu herio mewn modd arloesol (3/13).

Er bod mwyafrif yr ysgolion yn bositif iawn am effaith y cwricwlwm newydd ar athrawon, amlygwyd hefyd gan bum ysgol bod angen i'r canllawiau, yn enwedig ar gyfer yr adrannau cynllunio ar gyfer dysgu, ddarparu mwy o eglurdeb na'r hyn sy'n cael ei gynnwys eisoes. Yn yr achosion hyn, awgrymodd yr ysgolion fod y canllawiau a ddarparwyd yn feichus o ganlyniad i nifer y geiriau a'r eirfa ei hun a allai fod yn drwm neu'n aneglur ar brydiau ac yn rhy eang, ac roedd athrawon yn awgrymu bod angen canllawiau mwy pendant er mwyn gweld cyswllt clir rhwng y datganiadau Beth sy'n Bwysig, y Meysydd Dysgu a Phrofiad a'u camau cynnydd mewn dull mwy syml heb gymaint o adnoddau,

*'Y farn gychwynnol yw bod faint o waith darllen sydd i'w wneud yn y chwe maes profiad yn aruthrol pan fyddwch chi'n dysgu ystod o oedrannau gwahanol yn llawn amser. Byddai cael datganiadau 'Beth sy'n Bwysig' gyda'r deilliannau cyflawniad a'r camau cynnydd ar un dudalen yn ddefnyddiol iawn er mwyn gallu gweld y cyswllt rhyngddynt. Mae angen i ni gynllunio chwe maes a chynllunio gwaith i gyd-fynd â nhw, sy'n heriol iawn mewn ysgol fach gyda thri athro'. -*  
**Ysgol 9**

Roedd tair ysgol arall hefyd yn mynegi pryderon athrawon yn ymwneud ag aliniad pynciau a fframweithiau o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad, gan awgrymu eu bod yn ansicr erbyn hyn sut fyddai cynnwys rhwng y pynciau sy'n cael eu dysgu ar hyn o bryd yn cydfynd gyda'r system newydd, sut fyddai hyn yn edrych ar draws yr holl Feysydd Dysgu a Phrofiad a sut y byddai'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn cael eu hymgorffori

*'Mae pryderon wedi codi ynglŷn â rôl y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae athrawon wedi gofyn a yw'r ddogfen hon yn dal i fod yn angenrheidiol gan y dylai'r Meysydd Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd ac Iaith, Llenyddiaeth a Chyfathrebu ymdrin â'r cynnwys hwn. Yn ogystal, nid yw'r iaith a ddefnyddir yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol 2022 yn gyson gyda gweddill y Cwricwlwm i Gymru gan nad ydynt wedi cael eu hysgrifennu ar ffurf datganiadau "Gallaf.../Rydw i wedi..." fel y gwelir yn y Deilliannau cyflawniad. Mae diffiniadau'r grwpiau blwyddyn yn y fersiwn flaenorol yn amlwg iawn, sy'n rhoi neges anghyson. Ceir hefyd anghysondeb rhwng y dogfennau Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r dogfennau MDPH'. -*  
**Ysgol 5**

Trwy gydol adroddiadau'r Ysgolion Rhagbrofi, roedd mwyafrif yr ysgolion yn nodi er eu bod yn gallu gweld effaith gadarnhaol y cwricwlwm ar athrawon, mae pryderon eang yn parhau y bydd y cwricwlwm newydd yn cynyddu'r baich a'r straen ar athrawon (8/13). I nifer, awgrymir bod hyn yn cael ei wneud yn anos oherwydd amwysedd neu gymhlethdod y brawddegau o fewn ac ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Mewn rhai achosion, roedd ysgolion hefyd yn awgrymu bod nifer y Datganiadau Beth sy'n Bwysig yn creu anawsterau i athrawon, ac yn hytrach na chynnwys datganiadau Beth sy'n Bwysig mewn MDPH, dylid cael rhai datganiadau

Beth sy'n Bwysig cyffredinol o leiaf sy'n eistedd uwchben y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Yn y rhan fwyaf o achosion, amlygwyd hefyd ar sawl achlysur er bod Ysgolion Rhagbrofi yn ddiolchgar am y cyfle i ddatblygu eu haddysgeg a'u cynlluniau eu hunain ar gyfer y dyfodol, byddai ysgolion eraill yn cael eu llesteirio drwy beidio â chael yr un amser i baratoi.

### 5.3 Staff Cefnogi

Fel y nodwyd eisoes, roedd hyfforddiant a gwblhawyd gan staff yn cael ei nodi'n aml o fewn adroddiadau'r Ysgolion Rhagbrofi fel y prif weithgaredd a gwblhawyd fel rhan o gyflwyniad yr ysgolion i'r cwricwlwm newydd. Mae adroddiadau'n awgrymu bod modd canfod yr hyfforddiant ar draws staff yr ysgol, gyda chwe ysgol yn nodi bod eu staff cefnogi wedi cwblhau hyfforddiant yn ymwneud â'r cwricwlwm newydd. Yn yr achosion hyn, mae ysgolion yn nodi bod staff cefnogi hefyd wedi cael cyfle i gynllunio a chydweithio ochr yn ochr ag athrawon, gan ddangos dull ysgol gyfan er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r hyn fydd y cwricwlwm newydd yn ei olygu ar lefel darpariaeth,

*'Mae staff cefnogi wedi cael cyfle i fynychu sesiwn hyfforddi am y cwricwlwm newydd trwy gydol y broses Ysgol Rhagbrofi, ac maen nhw wedi gweithio gydag athrawon i gynllunio a darparu gwersi. Mae pob aelod o staff dysgu a staff cefnogi mewn un gweithgor MDPH. Mae pob grŵp yn ymglyfarwyddo gyda'r datganiadau Beth sy'n Bwysig a'r deilliannau cyflawniad ar gyfer eu MDPH ac yn ystyried y cwestiynau lefel uchel'. - Ysgol 5*

Yn debyg i'r effaith ar athrawon, yn yr achos hwn, awgrymwyd bod y cwricwlwm newydd yn cael ei ystyried yn beth da gan staff cefnogi, gan ei fod wedi darparu cyfle i'r staff ddatblygu eu sgiliau, ynghyd â darparu addysg i ddysgwyr sy'n adlewyrchu'r angen. Fodd bynnag, roedd staff cefnogi yn adleisio pryderon tebyg i bryderon yr athrawon, gydag adroddiadau ysgol yn nodi bod rhai ohonynt (5/11) yn pryderu am lwybrau cynnydd dysgwyr a chanllawiau aneglur.

### 5.4 Tîm Arweinyddiaeth

Wrth ystyried aelodau staff mewn swyddi rheoli yn yr Ysgolion Rhagbrofi, roedd ysgolion yn aml yn nodi bod y potensial ar gyfer cydweithio rhwng arweinwyr (8/12) a'r cyfle iddynt baratoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru wedi cael effaith gadarnhaol. Yn yr achosion hyn, roedd ysgolion yn awgrymu bod gweithio gyda'i gilydd a neilltuo amser ffurfiol er mwyn gallu paratoi ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm wedi eu hatal rhag teimlo eu bod yn cael eu llethu gan y tasgau hyn,

*'Cynhelir cyfarfodydd Uwch Dîm Dysgu bob pythefnos er mwyn i Benaethiaid a Dirprwy Benaethiaid allu darparu gwybodaeth ar gyfer y camau nesaf a thrafod y ffordd ymlaen. Y syniad cychwynnol yw cadw popeth mor syml â phosibl, gan sicrhau bod pawb yn gytûn ac yn deall y rhesymau PAM a SUT mae'r cwricwlwm yn newid. Gan ein bod wedi sicrhau ei fod yn cael ei rannu'n raddol, nid oes unrhyw agwedd wedi bod yn llethol. Mae pob Targed Rheoli Perfformiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd, fel y Cynllun Gwella Ysgol, felly mae athrawon wedi bod yn dilyn trywydd cadarnhaol, gan addasu wrth fynd'. - Ysgol 12*

Er i Ysgolion Rhagbrofi awgrymu mewn rhai achosion fod hyblygrwydd y Meysydd Dysgu a Phrofiad yn cynnig cyfleoedd i gydweithio a chyfleoedd eraill, bu ysgolion hefyd mynegi pryder y gallai'r hyblygrwydd hwn fod yn faich ar athrawon a staff eraill. Yn yr achos hwn, awgrymodd ysgolion, oherwydd diffyg hyder athrawon yn eu dealltwriaeth o'r cwricwlwm a/neu eu gallu canfyddedig i ddarparu'r dull newydd, roedd timau arweinyddiaeth yn teimlo nad oedd digon o fanylion yn cael eu rhoi, er enghraifft o fewn MDPH a/neu o ganlyniad i ddiffyg cynlluniau gwersi. Amlygodd dwy ysgol hefyd bod geiriad y dogfennau canllaw yn drwm a/neu yn anghyson ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad, ac oherwydd hynny, roeddent yn pryderu y byddai'r asesiadau'n wrthrychol ac yn amrywio o ysgol o ysgol. Yn yr achos hwn, bu ysgolion hefyd yn mynegi pryder ynglŷn ag effaith negyddol y cwricwlwm ar adnoddau athrawon, gan awgrymu eu bod yn ansicr ynglŷn â sut, wrth edrych tua'r dyfodol, y byddai'r ysgolion yn gallu ariannu'r newidiadau a'r adnoddau angenrheidiol er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Dywedodd un ysgol arbennig ar gyfer y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol eu bod yn rhagweld na fyddai'r cwricwlwm newydd yn adlewyrchu holl anghenion a galluoedd eu dysgwyr.

## 5.5 Llywodraethwyr

Roedd mwyafrif helaeth yr ysgolion (10/11) yn adrodd yn rheolaidd i'w llywodraethwyr ynghylch unrhyw ddiweddariadau ar weithgareddau'r Ysgolion Rhagbrofi a'r Cwricwlwm i Gymru. Ymysg y rhain, roedd pum ysgol hefyd yn adrodd eu bod wedi creu platfform lle y gallai'r llywodraethwyr ddarparu adborth ar y cwricwlwm, sy'n dangos agwedd ysgol gyfan tuag at y cwricwlwm newydd. Dywedodd un ysgol,

*'Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn eitem safonol mewn cyfarfodydd llawn o'r Bwrdd Llywodraethwyr ac is-bwyllgorau safonau. Mae pob un o'r llywodraethwyr wedi derbyn copi o'r dogfennau Trosolwg a ddatblygwyd gennym, ac maent hefyd wedi cael eu hannog i ymweld â'r Hwb i weld y drafft ar lein. Mae'r rhan fwyaf o'r llywodraethwyr hefyd wedi mynychu sesiwn hyfforddi ar y cwricwlwm newydd a'r newidiadau. Rydym ni wedi enwi llywodraethwyr ar gyfer pob MDPH. Maen nhw'n ymuno â Theithiau Dysgu fel rhan o'n rhaglen fentora. Maen nhw wedi dangos eu bod yn gefnogol iawn o'r Cwricwlwm i Gymru ond mae ganddynt bryderon ynglŷn â chymwysterau'r dyfodol'. - Ysgol 5*

## 5.6 Rhieni

Lle cafwyd adroddiad, roedd ysgolion yn awgrymu bod yr effaith ar rieni wedi bod yn gyfyngedig hyd yma gan ei fod y broses o weithredu'r cwricwlwm yn ei ddyddiau cynnar. O'r 10 ysgol a nododd unrhyw effaith ar rieni, roedd saith yn nodi eu bod wedi rhannu gwybodaeth (trwy lythyr fel arfer) am y cwricwlwm i rieni a'u gwaith fel Ysgolion Rhagbrofi. Yn ogystal, dywedodd pum ysgol eu bod ar hyn o bryd yn bwriadu cynnal digwyddiadau cyfranogol gyda rhieni i sicrhau eu bod yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf a'u bod yn cael cyfle i roi barn yn yr ymgynghoriad,

*'Mae rhieni wedi cael eu hysbysu o'r newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm ac fe ddaethon nhw'n ymwybodol o'r rhain yn ystod noson cwricwlwm. Yn ystod y cyflwyniad, clywodd rhieni am nodau craidd y cwricwlwm a rhoddwyd eglurhad o'r trefniadau. Cawsant wahoddiad i ofyn cwestiynau yn ei gylch yn ogystal â chyfle i weld y newidiadau mae'r ysgol wedi ei wneud i ddarpariaeth ac addysgeg. Cafodd rhieni'r cyfle i siarad gyda nifer o staff ynglŷn â dulliau newydd a ddefnyddir yn ogystal â sut mae dysgwyr bellach yn cael eu trefnu. Roedd adborth rhieni yn gadarnhaol, ac roedd nifer yn nodi pa mor gyffrous yw'r newidiadau sydd ar y gweill'. - Ysgol 3*

Roedd dwy ysgol hefyd wedi darparu tystiolaeth o ddigwyddiadau cyfranogol a gynhaliwyd ganddynt a oedd yn cynnwys rhieni ac yn amlygu pwysigrwydd ymgorffori'r gymuned yn eu hysgolion.

## 5.7 Cyfleoedd

Yn eu hadroddiadau, gofynnwyd i Ysgolion Rhagbrofi amlygu unrhyw gyfleoedd sydd wedi codi wrth iddynt gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Yn fwyaf cyffredin, (7/13) roedd ysgolion yn nodi eu rôl fel Ysgol Rhagbrofi fel cyfle da i wella eu harferion, gan ystyried cwestiynau ehangach a chyffredinol megis y rhai sy'n ymwneud â'u dulliau addysgu eu hunain ac iechyd y dysgwr, sy'n rhywbeth nad oes ganddynt amser na chymhellant dybryd i'w wneud fel arfer,

*'Ar lefel strategol, rydym ni wedi dewis dilyn y trywydd canlynol o ran cynllunio'r cwricwlwm - cysylltu addysgeg gyda'r cynnydd tuag ar y Pedwar Diben, ac yna defnyddio'r manylion cynnydd mwy manwl yn y dogfennau i sicrhau ansawdd ein cynllun cwricwlwm. Mae hyn wedi bod yn sbardun gwych i'r ysgol ofyn cwestiynau dilys ynglŷn â pha ddulliau addysgu a dysgu yr ydym yn eu gwerthfawrogi fwyaf a pham, tu hwnt i'r ffocws ar ganlyniadau TGAU'. - Ysgol 10*

Cyfleoedd cyffredin eraill a amlinellwyd gan yr Ysgolion Rhagbrofi oedd,

- Llwybrau dilyniant clir y Meysydd Dysgu a Phrofiad (6/13)
- Y gallu i gydweithio gydag athrawon ac ysgolion eraill (6/13)
- Cyfle i fod yn arloesol ac yn greadigol (5/13)
- Casglu dysgu go iawn o fewn y cwricwlwm newydd (5/13)
- Cyfle i weithredu mewn modd sy'n cael ei arwain gan ofynion a diddordebau'r dysgwyr (5/13)
- Cyfle i brofi a threialu dulliau cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn llawn (4/13)
- Mwy o ryddid hyblygrwydd (3/13).

Mae'n ddiddorol nodi, er bod y tueddiadau hyn i'w gweld ar draws pob ysgol, roedd y cyfleoedd a ddarperir drwy lwybrau cynnydd eglur yn cael eu nodi'n bennaf gan ysgolion cynradd (5/6).

## 5.8 Heriau

Roedd mwyafrif yr Ysgolion Rhagbrofi (10/14) yn nodi bod asesu o fewn y Cwricwlwm i Gymru yn achosi her yn eu hysgolion. Er bod y rhesymau dros hyn yn amrywio, awgrymwyd yn gyffredin bod hyn o ganlyniad i'r ffaith nad oedd ysgolion yn derbyn canllaw asesu nes 2020, gan olygu mewn nifer o achosion bod ysgolion ac athrawon yn ansicr ynglŷn â sut fyddai cynnydd eu dysgwyr yn cael ei gofnodi. Dywedodd un ysgol,

*'Mae'r ffaith na fydd canllawiau asesu ar gael nes Ionawr 2020 wedi atal ein hymdrechion i raddau i symud y cwricwlwm yn ei flaen yn yr ysgol. Mae ein athrawon wedi defnyddio technegau asesu ffurfiannol i helpu dysgwyr i wneud cynnydd yn eu haddysg, ond byddai wedi bod yn ddefnyddiol i gynnwys trefniadau asesu mwy manwl gyda'r cwricwlwm drafft'. - Ysgol 3*

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd ysgolion a oedd wedi amlygu pryderon yn ymwneud ag asesiad yn awgrymu bod hyn yn berthnasol neu o ganlyniad i'w hansicrwydd ynglŷn â'r camau cynnydd yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad a sut y byddent yn berthnasol i'w hymarferion.

Yn gyffredinol, roedd Ysgolion Rhagbrofi hefyd yn amlygu bod canfod adnoddau ac amser er mwyn datblygu'r cwricwlwm newydd wedi bod yn heriol (6/14). Yn yr achos hwn, roedd ysgolion yn nodi eu bod yn ei chael yn anodd canfod amser i fod yn arloesol a chynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd a chydbwyso'r hen gwricwlwm a pharhau gyda'r gwaith o ddysgu ac asesu o ddydd i ddydd. Yn achos un ysgol, roedden nhw'n awgrymu, er eu bod wedi gweld y dasg o gydbwyso adnoddau'n anodd, roedd ganddynt bryderon hefyd ynglŷn â pha mor heriol fyddai'r dasg o gyflwyno'r cwricwlwm i ysgolion nad oeddent yn Ysgolion Rhagbrofi felly heb unrhyw adnoddau ychwanegol,

*'Mae'r amser i greu a threalu ar y cyd wedi bod yn hanfodol i'n staff ac rydym ni wedi neilltuo nifer o sesiynau hyfforddiant mewn swydd i wneud hynny. Rydym ni hefyd wedi defnyddio cyllid arloesi i ryddhau staff er mwyn cydweithio, cyd-greu a chyd-arfarnu. Heb gyllid, ni fyddai'r gwaith cynllunio a phrofi wedi bod mor llwyddiannus. Mae angen buddsoddiad i wneud hyn'. - Ysgol 7*

Fel y nodwyd eisoes, roedd heriau eraill a fynegwyd gan Ysgolion Rhagbrofi yn nodweddiadol yn ymwneud â gwybodaeth am y cwricwlwm newydd, ac at hynny, hyder athrawon i ddysgu'r cwricwlwm newydd. Mewn rhai achosion, yn enwedig o fewn ysgolion uwchradd, amlygwyd y byddai angen hyfforddiant ychwanegol ar athrawon i ymdrin â holl gynnwys pwnc yn eu MDPH newydd (5/14). Mewn ysgolion eraill, nodwyd fod canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys 'iaith gymhleth' (4/14) a/neu eu bod yn rhy gyffredinol ar draws pob MDPH (4/14). Wrth edrych o'r safbwynt hwn, awgrymodd ysgolion bod yr heriau a wynebwyd yn arwain at athrawon yn teimlo'n brin o hyder yn eu gallu i ddysgu'r cwricwlwm newydd (3/14), bod bylchau'n dal i fod yn eu gwybodaeth (3/14), eu bod yn amharod i wynebu newid (2/14) a/neu'n camddeall pwrpas y dulliau a fwriadwyd ar gyfer y cwricwlwm newydd.



## 6 Ystyriaethau ar gyfer y Dyfodol

Fel rhan o'r ymarfer adrodd ar ddiwedd cyfnod, gofynnwyd i Ysgolion Arloesi gynnwys unrhyw argymhellion posibl i wella gweithrediad Cwricwlwm i Gymru yng nghan nesaf y broses. Gan fwyaf, roedd argymhellion Ysgolion Rhagbrofi yn ymwneud ag alinio'r chwe MDPH, gan awgrymu'n enwedig bod angen mwy o gysondeb yn y derminoleg a ddefnyddir ym mhob MDPH a'r datganiadau Beth sy'n Bwysig sy'n rhan ohonynt (7/9). Yn yr achosion hyn, nododd ysgolion y gallai'r gwahaniaethau mewn terminoleg ac egwyddorion cynnydd gael eu nodi'n fwy clir.

Ceir ystyriaethau ehangach o ran methodoleg yn ymwneud â sut i rannu'r gwersi a ddysgwyd gan Ysgolion Rhagbrofi er mwyn cefnogi'r gwaith parhaus o fireinio a chyflwyno'r cwricwlwm. Un o'r prif ffactorau yma yw cywirdeb ac ehangder yr adroddiadau. Gwelwyd amrywiaeth sylweddol ym manylder yr adroddiadau.

